BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

NEATH PORT TALBOT
PUBLIC SERVICES BOARD

Adroddiad Blynyddol
2021

Cynnwys

Contents

Rhagair 4

Cefndir 6

Amcanion Llesiant 2018-2023 7

Y Weledigaeth 8

Cyflawniadau 2020/21 9

Asesiad Effaith Gymunedol 9

Yr Economi 10

Tai a Digartrefedd 11

Plant a Phobl Ifanc 12

Cymuned Plant Gorllewin Sandfields 12

Diweithdra Ieuenctid 14

Cefnogaeth Gymunedol 15

Iach a Diogel 15

Grŵp Craidd y Seilwaith Gwyrdd 16

Cyllid Strategol a Ddyrannwyd (SAF) 17

Mapio Mannau Gwyrdd Cymunedol 17

Canolfan Ymwelwyr Cwm Afan 18

Adfer Pwll Parc Jersey 18

Ceisiadau Deilliannau a Rennir (SORs) 19

Craig Gwladus 19

I mewn i'r Coed 19

Bioamrywiaeth Conifferau yn Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru 19

Prosiectau eraill 19

Mawndiroedd Coll 19

Fferm Brynau – Astudiaeth achos creu Coetir (SMNR ar waith) 21

Tai Tarian: Cystadleuaeth Fy Lle i, Fy Ngofod i ar gyfer Pobl Ifanc 21

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol CNPT (NPTCVS): Pecyn offer ar gyfer Mannau Gwyrdd ac Adferiad Gwyrdd 22

Asesiad Llesiant 23

Cynhwysiad Digidol 24

Gweithio ar y Cyd 25

Asesiadau Llesiant ac Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 25

Camddefnyddio Sylweddau 25

Gwaith Braenaru Blynyddoedd Cynnar 26
Cynghorau Tref a Chymuned 27
Edrych Ymlaen 28
Sut gallwch chi dracio cynnydd a bod yn rhan o'n gwaith? 29

Rhagair

Cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ei Gynllun Llesiant ar gyfer y fwrdeistref sirol – “Y Castell-nedd Port Talbot a Garem” ym mis Mai 2018, yn dilyn asesiad cynhwysfawr o lesiant y boblogaeth leol ac ymgynghori ac ymgysylltu helaeth ag ystod eang o randdeiliaid.

Mae’n bleser gennym gyhoeddi ein trydydd adroddiad blynyddol, sy’n cofnodi ein cynnydd o ran y flaenoriaeth a gyflwynwyd yn ein Cynllun. Gwelwyd amgylchiadau digynsail yn ystod trydedd flwyddyn cyflwyno ein Cynllun Llesiant, ac mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cydweithio i gefnogi cymunedau o ymateb i adferiad. Gan mai’r BGC yw’r corff sy’n arwain rhaglen adferiad amlasiantaeth Castell-nedd Port Talbot yn dilyn Covid-19, mae wedi targedu’r ardaloedd lle mae’r angen fwyaf yn ei ymdrechion. Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno’r gwaith a wnaethom i gefnogi ein cymunedau yn ystod y pandemig, a hefyd ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn ein bod yn sicrhau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl leol, ac yn gwneud hynny mewn modd cynaliadwy. Mae manteision y berthynas â phartneriaid a ddatblygwyd o ganlyniad i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn awr yn dod i’r amlwg. Mae digwyddiadau mawr diweddar yng Nghastell-nedd Port Talbot, megis y ffrwydriad mewn tŷ ym Mlaendulais (Mehefin 2020) a’r siafft pwll a ddymchwelodd gan achosi llifogydd ym Mharc Gosen, Sgiwen (Ionawr 2021) yn anochel yn estyn yr angen am waith effeithiol mewn partneriaeth, i gynnwys ystod eang o sefydliadau megis awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Trydydd Sector, Byrddau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus etc. Mae digwyddiadau o’r math yma yn ddeinamig ac yn galw am ymateb brys, felly mae alinio strategol yn ofynnol i gael hyd i ffordd trwy’r gofynion o ran y cyfryngau a chyfathrebu, effaith wleidyddol ac economaidd, hyder y cyhoedd a chynlluniau adfer i’r dyfodol. Fel aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ers 4 blynedd bellach, rwy wedi datblygu perthynas waith agos gydag arweinwyr strategol o amrywiaeth o gyrff sector cyhoeddus a thrydydd sector. Rwyf yn gwbl sicr bod y perthnasoedd hyn, a ffurfiwyd oddi mewn i amgylchedd y BGC, wedi bod yn amhrisiadwy o safbwynt cynorthwyo penderfyniadau strategol a gwella canlyniadau i’r cymunedau rydym ni’n eu gwasanaethu.

Gobeithiwn y bydd gennych chi ddiddordeb yn y gwaith rydym ni’n ei wneud, a byddem ni’n croesawu syniadau a chyfraniadau sy’n gallu cyflawni newid er mwyn creu’r Castell-nedd Port Talbot a garai pawb ohonom.

Roger Thomas
Dirprwy Brif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Is-gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot

Cefndir

Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru i annog sefydliadau lleol i weithio ar y cyd, a chyda phoblogaethau lleol er mwyn gwella lles y bobl sy'n byw yn eu hardal. Disgrifir y ffordd yr hoffai Llywodraeth Cymru gyflawni hyn yn ymarferol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mewn canllawiau eraill.

Cynhaliodd y Bwrdd asesiad lles cynhwysfawr o'r boblogaeth leol, sy'n cynnwys amrywiaeth o wybodaeth ystadegol am y pethau niferus a all effeithio ar les. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau troseddu ac anrhefn, cyrhaeddiad addysgol, yn ogystal â chyfraddau marwoldeb a chyffredinolrwydd clefydau etc. Roedd y Bwrdd hefyd wedi casglu barn amrywiaeth eang o bobl am yr hyn sy'n bwysig i'w lles. Yn olaf, roedd yr asesiad y cynnwys Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, a oedd yn nodi nifer o faterion a fyddai'n debygol o effeithio ar les dros y 30 o flynyddoedd nesaf, neu fwy.

Defnyddiodd y Bwrdd ganfyddiadau'r Asesiad Lles er mwyn paratoi'r Cynllun Lles, a gyhoeddwyd yn 2018. Mae'r cynllun yn rhestru'r chwe amcan lles a ddewiswyd gan y Bwrdd er mwyn llywio cyfeiriad ei waith.

Asesiad Lles Castell-nedd Port Talbot

Cynllun Lles Castell-nedd Port Talbot

Amcanion Llesiant 2018-2023

1. **Gwella llesiant plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn arbennig y rhai sydd mewn perygl o ddioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod**

2. **Adeiladu cymunedau diogel, hyderus a chydnerth**

3. **Creu amgylchedd lle gall pawb heneiddio'n dda**

4. **Cefnogi llesiant trwy waith ac yn y gweithle**
5. **Diogelu a gwella ein seilwaith gwyrdd**
6. **Cynyddu lefelau cyfranogiad/cynhwysiad digidol**

Y Weledigaeth

Rydym am i Gastell-nedd Port Talbot fod yn lle bywiog ac iach lle mae gan bobl gyfle cyfartal i ddatblygu yn eu bywydau - rhywle y mae pobl am fyw, dysgu, gweithio a buddsoddi ynddo ac ymweld ag ef am genedlaethau i ddod.

Rydym am i wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y Trydydd Sector, fod yn effeithiol ac yn werth da am arian, yn hawdd i bobl eu defnyddio a chynnig cyflogaeth o safon lle caiff pobl eu gwerthfawrogi am y gwaith maent yn ei wneud. Gyda dinasyddion, byddwn yn adeiladu ar ein cymunedau cryf a chydlynol lle caiff hawliau pawb eu parchu a'u diogelu.

Rydym am i'n gwasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio ar alluogi pobl a chymunedau i fod yn wydn ac yn gadarn, a bydd yn arferol i ddinasyddion brofi gwasanaethau di-fwlch, personoledig ac o safon. Bydd cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn creu'r amodau cywir ar gyfer buddsoddi a fydd yn galluogi i'r fwrdeistref sirol ddenu a chynnal cyflogaeth gynaliadwy o safon i bobl leol.

Bydd ein cymunedau wedi'u cysylltu'n dda trwy isadeiledd digidol a chludiant o'r radd flaenaf a chaiff ein hamgylchedd naturiol ei warchod a hefyd ei ddatblygu i gefnogi byw iach a buddsoddi.

Byddwn wedi cyflawni'n gweledigaeth pan fydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd; pan fydd gan yr holl bobl ifanc ac oedolion y sgiliau a'r gwydnwch i fod yn iach ac yn ffyniannus; pan bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel; pan fydd ein holl gymunedau'n ffynnu ac yn cefnogi'r bobl sy'n byw ynddynt; a lle gall pobl dderbyn cefnogaeth gan gymdogion a rhwydweithiau cymdeithasol datblygedig.

Cyflawniadau 2020/21

Mae argyfwng Covid-19 wedi amharu'n sylweddol ar waith y Bwrdd ers mis Mawrth 2020 ac ers hynny mae'r BGC wedi canolbwyntio ar roi sylw i effaith uniongyrchol yr argyfwng ar lesiant a diogelwch pobl ar draws y fwrdeistref sirol. Rydym hefyd wedi cymryd amser i fyfyrio ar effaith yr argyfwng yn y tymor hwy, a sut bydd angen i hynny ddylanwadu ar flaenraglen waith gytunedig y Bwrdd.

Asesiad Effaith Gymunedol

Yng ngwanwyn 2020 comisiynodd y BGC asesiad effaith gymunedol (AEG) cychwynnol er mwyn deall profiad pobl, busnesau a sefydliadau o'r pandemig, a'i effaith arnyn nhw. Sefydlwyd grŵp data ac ymchwil i gydlynu'r asesiad ac i gytuno ar y data a fyddai'n cael ei gasglu i sicrhau'r darlun cychwynnol hwn.

Roedd yn ddealledig bod yr AEG yn waelodlin ar gyfer yr adeg benodol honno, ond serch hynny, rhagwelid y byddai'r dystiolaeth o'r AEG yn llywio'r dull o ymdrin ag adferiad. Rhagwelid hefyd y byddai'r AEG yn helpu i nodi meysydd allweddol lle gallai gweithredu ar y cyd gan bartneriaid leihau'r effeithiau negyddol a chanfod cyfleoedd posibl i gydweithio.

Seiliwyd yr AEG ar y pedair colofn llesiant a nodweddion penodol o sefyllfa Covid-19; ac roedd yn cynnwys data a chwyddwyd ynghyd â gwybodaeth o arolygon. Cynhaliwyd gweithdai rhithwir o dan bob un o'r colofnau llesiant er mwyn casglu'r materion allweddol oedd yn codi o'r data, yr arolygon a'r ddealltwriaeth o'r sefyllfa ar yr adeg honno.

Adroddwyd y materion allweddol hyn yn y BGC ym mis Mai 2020, a chytunodd y Bwrdd y dylid rhoi'r gwaith o ymdrin â'r materion allweddol oedd yn deillio o'r AEG i bartneriaethau neu grwpiau oedd eisoes yn bodoli, lle roedd modd.

O ganlyniad, cynhaliwyd ymarferiad mapio i alinio'r prif faterion â'r partneriaethau neu'r grwpiau priodol, fel bod modd wedyn i'r BGC ofyn/roi cyfarwyddyd i'r grŵp priodol yn unol â hynny. Seiliwyd y mapio hwn ar ddealltwriaeth a rennid o rôl y grŵp neu'r bartneriaeth dan sylw, a'u perthynas â'r BGC o safbwynt llywodraethu.

Yn sgîl hyn, arweinir y prif faterion sy'n ymwneud â iechyd meddwl gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a bydd y bartneriaeth diogelwch cymunedol yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n deillio o faterion diffyg cydymffurfio cysylltiedig â Covid-19. Amlygodd yr ymarferiad mapio hwn rai bylchau o ran grwpiau oedd eisoes yn bodoli i arwain at faterion allweddol a nodwyd oedd yn ymwneud â materion economaidd, cymunedol a thai. Bu'r ymarferiad mapio yn osgoi ychwanegu'r materion busnes arferol ac yn ymdrechu i amlygu'r meysydd gwaith y mae angen canolbwyntio arnynt o ganlyniad i C-19 a'i effaith, yn hytrach na'r materion a fyddai'n cael eu symud ymlaen beth bynnag.

Mae'n bwysig nodi na chasglodd y ddogfen fapio yr holl faterion oedd yn dod i'r amlwg, gan mai'r bwriad oedd casglu'r themâu allweddol oedd yn deillio o'r AEG a'r gweithdai amlasiantaeth, fel yr adroddwyd i'r BPRh, ar yr adeg benodol honno.

Darlun oedd yr AEG, a deellid y gallai gwahanol bethau ddod i'r amlwg ar wahanol adegau. O ganlyniad, y bwriad oedd bod yr AEG yn broses iteraidd, wrth i bethau newid ac i dystiolaeth a dealltwriaeth newydd ddatblygu.

Wrth geisio ymdrin â'r materion allweddol, gofynnwyd i bob grŵp neu bartneriaeth gyfeirio at iteriad diweddaraf yr AEG, ochr yn ochr â thempled materion allweddol oedd yn darparu mwy o fanylion nag y gellid eu crynhoi mewn dogfen fapio, ac yna datblygu eu camau gweithredu neu eu hymatebion eu hunain.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r AEG, rhoddwyd blaenoriaeth i'r meysydd gwaith canlynol eleni:

Yr Economi

Bu'r BGC yn cydnabod bwlch yn ei strwythur, lle gellid edrych ar economi'r ardal leol o bersbectif amlasiantaeth. Sefydlwyd Fforwm Economaidd, dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Gweithredol (CEO) Tai Coastal, ac yn cynnwys cynrychiolwyr o CBSCNPT, Grŵp Colegau CNPT, Tai Tarian, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'r Ffederasiwn Busnesau Bach ar y cychwyn.

Mae'r fforwm hon wedi monitro'r data sydd ar gael i ddadansoddi effaith ychwanegol Covid-19 ar y sefyllfa economaidd gyfredol yn CNPT eleni. Yn awr mae partneriaid yn edrych ar sut gallan nhw gydweithio i gefnogi rhai nodau tymor byr ynghylch sicrhau bod yr economi'n dychwelyd i'r llwybr cywir. Mae'r meysydd gwaith hyn yn cynnwys dosbarthu cyllid cymorth busnes i Adfer ar ôl Covid, cyflogadwyedd, sefydlu fforymau busnes priodol i'r sector a ffocws ar gaffael yn lleol; buddiannau cymunedol a chefnogi'r Economi Sylfaenol/Gylchol.

Bydd y Fforwm hon yn goruchwylio Cynllun Gweithredu Economaidd ar gyfer CNPT, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Tai a Digartrefedd

Sefydlwyd Fforwm Tai amlasiantaeth i symud y camau allweddol canlynol ymlaen:-

Nodi ffyrdd o gefnogi'r boblogaeth gynyddol sydd mewn llety dros dro i symud i lety mwy parhaol – h.y. delio â chanlyniadau'r polisi "pawb i mewn" a fabwysiadwyd ar ddechrau pandemig Covid-19.

Trafod perfformiad presennol o ran cyflawni'r targedau tai a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol a chanfod dulliau gweithredu y gellid eu datblygu yn ystod cyfnod adolygu'r CDLl, a allai arwain at fecanweithiau polisi amgen a fyddai'n gwella perfformiad.

Mae'r gwaith hwn yn parhau, ac mae'n gychwyn ar ddull mwy strategol o ymdrin â'r problemau tai a digartrefedd sy'n cael eu hwynebu yn y fwrdeistref.

Plant a Phobl Ifanc

Gwelwyd gwaith parhaus y BGC o dan *Amcan Llesiant 1 – Gwella llesiant plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn arbennig y rhai sydd mewn perygl o ddioddef profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod*, fel elfen arbennig o bwysig eleni, ac mae wedi addasu er mwyn parhau i gefnogi teuluoedd, ochr yn ochr â chydymffurfio â chyfyngiadau'r llywodraeth. Rhoddwyd blaenoriaeth i waith pellach i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, gan fod y grŵp oed hwnnw'n un o'r rhai mae'r pandemig wedi cael effaith niweidiol arnynt.

Cymuned Plant Gorllewin Sandfields

Mae Cymuned Plant Gorllewin Sandfields (SWCC) wedi parhau'n ddigidol ar hyd y pandemig, gyda'r Grŵp Gweithredol, cyfarfodydd rheolaidd gyda phartneriaid a sesiynau dal i fyny yn digwydd ar-lein. Sefydlwyd Grŵp Cyfeirio Lleol, sy'n cynnwys trigolion lleol a Chynghorwyr. Mae gan y grŵp hwn eisoes lais cryf ynghylch yr hyn maen nhw'n dymuno ei weld yn y gymuned, a beth yw'r materion posib a fydd yn llywio ein gwaith wrth symud ymlaen. Mae gobaith y bydd y grŵp hwn yn ehangu, ac rydym wrthi'n chwilio am aelodau newydd. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein ar hyn o bryd, ond rydym ni'n gobeithio dychwelyd at rai wyneb yn wyneb pan fydd y canllawiau'n newid.

Bellach mae SWCC yn cyflogi Swyddog Ymgysylltu, a ariannir gan raglen Braenaru Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r Swyddog Ymgysylltu a'r Cydlynydd yn cydweithio'n agos â Chydlynydd Braenaru Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, ac maent wedi cytuno ar feini prawf i'w targedu o ran ymgysylltu. Adroddir am y canlyniadau bob mis, a bydd y gwaith yn gorgyffwrdd â rhaglenni Braenaru a Theuluoedd yn Gyntaf. Oherwydd cyfyngiadau cysylltiedig â Covid-19, dim ond yn ddiweddar mae'r gwaith ymgysylltu wyneb yn wyneb wedi cychwyn. Bydd y swyddog Ymgysylltu hefyd yn gweithio ochr yn ochr ag Achub y Plant i gyflawni'r rhaglen Cyswllt Teuluoedd yn yr ysgolion rydym ni'n eu targedu yn ardal y Sandfields.

Mae’r ardal awyr agored yn y Gymuned Plant wedi cael ei gwella yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid Chwarae. Bydd hyn yn ychwanegu’n fawr at ein cyfleoedd i weithio yn yr awyr agored gydag asiantaethau partner a theuluoedd.

Cysylltwyd â nifer bach o deuluoedd trwy Ddigwyddiad Pasg a gynhaliwyd ar-lein.

Mae’r tîm yn parhau i edrych ar ffyrdd o ganfod bylchau yn y ddarpariaeth a theuluoedd a allai fod mewn sefyllfa fregus trwy brosiect LIFT (Tracio Teuluoedd Incwm Isel).

Bydd prosiect arfaethedig yr ardd ddur oedd i gael ei chreu yn Nhir Morfa, mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Tarian, yn awr yn mynd rhagddo ar ôl oedi oherwydd y pandemig. Cyflwynwyd cynnig ariannu ar gyfer gardd natur i’w defnyddio gan y lleoliad gofal plant a’r ysgolion lleol ar gyfer gwaith grŵp. Mae cynlluniau i gydweithio’n agos â Bug Life a’r Tîm Bioamrywiaeth ar y prosiect hwn.

Dyrannwyd rhandir i SWCC, a’u bwriad yw ei ddefnyddio i helpu’r lleoliad gofal plant ar y safle, yn ogystal ag ysgolion lleol, a fydd yn gallu datblygu hyn fel rhan o brosiect. Bydd y Tîm Bioamrywiaeth hefyd wrth law i gefnogi, pan fydd y cyfyngiadau’n caniatáu.

Mae SWCC yn cydweithio’n agos â Gwasanaeth Ieuenctid CNPT ar eu menter paratoi Prydau Coginio Araf. Mae’r cynllun yma’n helpu i ymgysylltu â mamau ifanc, gwella’u sgiliau coginio a hunanreolaeth, a’u dysgu sut mae bwyta’n dda ar gyllideb.

Mae enghraifft ddiweddar o waith partneriaeth lleol wedi cynnwys cynorthwyo'r eglwysi, sy'n darparu pob math gwahanol o gefnogaeth i deuluoedd. Mae ar rai teuluoedd angen pecynnau bwyd, cyngor ariannol ac arweiniad neu gymorth gyda gwisg ysgol neu ddillad ar gyfer eu plant. Fel cymuned, gallwn ni gydweithio i helpu teuluoedd lleol i fod yn hunangynhaliol a chael bywyd cartref mwy cadarnhaol.

Diweithdra Ieuenctid

Gan gydnabod effeithiau anghymesur y pandemig ar bobl ifanc, mae'r BGC wedi goruchwylio peth gwaith dan arweiniad yr Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu cefnogaeth a chyngor.

Sefydlwyd hybiau yn gymharol gyflym yn ffynhonnell gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Gan fod y darlun o ran COVID yn newid yn gyflym, mae'r hybiau wedi symud rhwng gwasanaeth wyneb yn wyneb a gwasanaeth rhithwir.

Mae'r hybiau wedi canolbwyntio ar ddau lwybr cyflogadwyedd, iechyd a llesiant. Mae Arweinwyr Ieuenctid wedi cydweithio'n agos â phartneriaid i ddatblygu sesiynau ynghylch CVs, sgiliau cyfweliad, gorbryder ac iselder, gan wahodd siaradwyr a fydd yn ysbrydoli (cymheiriaid) ynghyd â chyfweliadau ffug, profiad gwaith a Kickstart a chyfleoedd yn y sector.

Mae Cyfle Cymru wedi cyflwyno cyrsiau ynghylch gorbryder ac iselder, a chyflawnodd y sesiwn beilot lefelau ymgysylltiad o 70% ac adborth rhagorol. Cwblhawyd ymarferiad mapio hefyd, gyda'r Grŵp Plant a Phobl Ifanc, i ganfod meysydd cefnogaeth a chyfleoedd yng nghyswllt y ddau lwybr. Y camau nesaf fydd gwerthuso'r cynigion hyn ac ymgysylltu â phartneriaid i gyflawni/gefnogi elfennau o'r hybiau ieuenctid.

Cefnogaeth Gymunedol

Mae partneriaid y BGC wedi ymateb i'r argyfwng trwy gefnogi trigolion a chymunedau trwy'r pandemig. Maent hefyd wedi sylweddoli sut mae cymunedau wedi dod at ei gilydd a helpu ei gilydd trwy'r cyfnod anodd hwn, ac fe hoffent adeiladu ar yr ysbryd cymuned hwn a adnewyddwyd i gefnogi adferiad wrth i'r cyfyngiadau lacio.

Iach a Diogel

Ar 23 Mawrth 2020, cyhoeddodd llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru gyfnod clo ffurfiol i atal feirws Covid-19 rhag ymledu. Cynghorodd Llywodraeth Cymru rai grwpiau o bobl i warchod eu hunain ac osgoi cyswllt cymdeithasol. Nid oedd gan rai pobl yn y grŵp hwnnw gefnogaeth teulu neu ffrindiau. O ganlyniad, dywedwyd wrth Gynghorau y dylent wneud trefniadau i bobl dderbyn cymorth gyda siopa bwyd, cael gafael ar foddion rhagnodedig angenrheidiol, help gyda thasgau eraill bywyd beunyddiol; yn ogystal â galluogi pobl i gael cyswllt cymdeithasol, e.e. dros y ffôn neu ar-lein. Roedd llawer o drigolion wedi dechrau ffurfio grwpiau cymorth Covid-19 ar lefel y gymdogaeth.

O ganlyniad, sefydlwyd Iach a Diogel i ddarparu cymorth dyngarol i grŵp bregus o bobl dros dro. Er nad yw'n rhan o gylch gorchwyl y BGC, mae cyflawni Iach a Diogel wedi galw am ddull gweithredu partneriaeth gefnogol gan aelodau'r BGC.

Nodwyd bod angen i 4,056 gael eu gwarchod ar yr adeg a nodwyd ym mis Mawrth, ond cynyddodd hynny wedyn i fwy na 5,500 o bobl yn yr haf wrth i Feddygon Teulu ac ymgynghorwyr ychwanegu rhagor o bobl at y rhestr, ac wrth i grwpiau eraill o bobl oedd angen cefnogaeth ddyngarol gael eu canfod.

Sefydlwyd Iach a Diogel yng nghyd-destun sefyllfa lle na allai pobl, ar y pryd, sicrhau amser dosbarthu nwyddau ar-lein, na threfnu clicio a chasglu, lle nad oedd y siopau lleol yn barod i ddosbarthu, derbyn taliadau dros y ffôn, etc., a rhoddwyd blaenoriaeth i staff allweddol er mwyn cefnogi gwasanaethau cymdeithasol craidd. Sefydlwyd cynllun Bwyd fel rhan o Iach a Diogel ar sail y cyngor (ar y pryd) na ddylai pobl oedd yn cael eu gwarchod fynd allan i siopa; ateb brys oedd hwn, am gyfnod cyfyngedig.

Anfonwyd llythyr at bob aelwyd ar draws Castell-nedd Port Talbot, yn egluro beth oedd Gwasanaeth Iach a Diogel CNPT ac yn annog pobl i gysylltu â'r Cyngor os oedd angen cefnogaeth arnynt. Cafodd y Gwasanaeth ei hyrwyddo hefyd trwy'r radio, y cyfryngau cymdeithasol, aelodau etholedig, a phartneriaid etc. Roedd cyflawni iach a diogel yn dibynnu ar Arweinwyr Cymunedol a gwirfoddolwyr. Bu'r arweinwyr cymunedol yn cydlynu gweithgaredd ar lefel leol, gan atgyfeirio i wirfoddolwyr y cynllun, sefydliadau partner, etc., er enghraifft bu Iach a Diogel yn cydweithio'n agos â'n darparwyr tai cymdeithasol.

Yn ystod mis Mehefin 2020, adolygwyd pob achos oedd yn agored i Iach a Diogel, a newidiwyd y ffocws i helpu pobl i gymryd camau at ddychwelyd i fywyd 'normal'. Fodd bynnag, sylweddolwyd bod angen help ar rai pobl o hyd. Erbyn diwedd mis Gorffennaf, roedd y rhan fwyaf o bobl wedi pontio o'r gwasanaeth bwyd gan fod y cynllun Blychau Bwyd, ymhlith pethau eraill, yn dod i ben ar 16 Awst, ac nid oedd bwriad i gynnig cynllun i'w olynu.

Yn ystod yr haf, wrth i nifer yr achosion o C-19 ostwng, ac i'r Prif Swyddog Meddygol fedru newid ei gyngor, nid oedd rhaid i'r rhai a fu'n gwarchod eu hunain wneud hynny bellach ar ôl 16 Awst. Anfonwyd llythyr at bawb ar y rhestr warchod i gadarnhau y byddai'r trefniadau dosbarthu Meddyginiaeth yn dod i ben ym mis Medi, a bod Iach a Diogel yn dal yno petai angen (rhoi sicrwydd).

Codwyd y cyfyngiadau, ac roedd y tirlun ehangach wedi newid, er enghraifft, roedd archfarchnadoedd yn cynnig mwy o amserau dosbarthu, ac oriau tawel ar gyfer yr henoed, pobl fregus a gweithwyr allweddol.

Ganol mis Medi, nodwyd bod nifer yr achosion yn cynyddu, a datblygwyd model gwasanaeth newydd ar gyfer Iach a Diogel, oedd yn darparu gwasanaeth rhwyd ddiogelwch i lenwi'r bylchau ar lefel gymunedol. Lluniwyd cynlluniau lleol wrth gefn yn ogystal, a daeth y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddosbarthu meddyginiaethau unwaith yn rhagor.

Ffactor allweddol yn llwyddiant Iach a Diogel oedd rôl y gwirfoddolwyr. Ar y cychwyn bu staff y Cyngor yn gwirfoddoli/cael eu hailgyfeirio i ymateb Iach a Diogel. Gwnaeth CBSCNPT alwad frys am wirfoddolwyr i helpu gyda'r ymateb dyngarol. Cafwyd ymateb aruthrol i'r cais hwn. Bu Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol CNPT (NPTCVS) yn helpu CBSCNPT i ddatblygu ei ddull o reoli gwirfoddolwyr. Ar ben hynny, cyflwynodd NTCVS hyfforddiant helaeth i wirfoddolwyr Iach a Diogel.

Sefydlwyd Iach a Diogel ar rybudd byr iawn (ychydig ddiwrnodau). Roedd LCCiaid, Cyswllt Oed CNPT, Age Cymru a Gofal a Thrwsio et al. eisoes wedi dechrau gweithredu, neu gwnaethant hynny'n gyflym. Yn hydref 2020, sefydlodd CCNPT bartneriaeth Iach a Diogel i baratoi ar gyfer y 'don nesaf' a'r posibilrwydd y byddai e.e. trefniadau gwarchod yn dychwelyd, a chan ystyried y gwersi a ddysgwyd, bu'n cydlynu ymdrechion yn well, ac yn rhannu gwybodaeth ac arfer gorau. Mae'r bartneriaeth Iach a Diogel yn dal i gyfarfod, ac mae'n cael ei hystyried yn system bwysig wrth ddatblygu perthnasoedd a rhannu gwybodaeth ac arfer da.

Un elfen bwysig sy'n parhau yn sgîl Gwasanaeth Iach a Diogel CNPT yw'r cyfle clir i gael hyd i ffyrdd o gysylltu â'r grŵp o bobl sy'n cael trafferth cyflawni anghenion beunyddiol ac yn ynysig yn eu cymunedau. Byddai hyn yn ffitio i mewn i waith ehangach ar ddatblygu cymunedol ac adferiad wrth symud ymlaen.

Grŵp Craidd y Seilwaith Gwyrdd

Mae'r flwyddyn ddiwethaf hon o dan Covid wedi bod yn anghyffredin dros ben ac wedi newid sut mae pawb ohonom yn byw ac yn gweithio yn hanfodol. Er bod y ffordd newydd hon o weithio wedi creu heriau o safbwynt gweithio ar y cyd, mae wedi dangos ein galluoedd i weithio o dan bwysau ar y cyd, a'n gallu i wrthsefyll newid. Mae rhai o'r newidiadau hyn wedi bod er gwell ac wedi herio'r normau a'r patrymau ymddygiad roeddem ni'n eu derbyn. Yn arbennig, mae COVID a chyfnodau clo wedi dangos pwysigrwydd aruthrol mannau gwyrdd naturiol hygyrch, wrth i lawer gysylltu o'r newydd â byd natur yn eu hardal leol, gan arwain at fwy o werthfawrogiad ohono a gosod mwy o werth arno. Yn bwysig, trwy'r ffyrdd newydd hyn o fyw a gweithio, rydym

wedi dangos ein gallu i newid ac addasu er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cymhleth.

Fel rhan o waith y BGC yn ymateb i Covid, bu'r Grŵp Craidd Seilwaith Gwyrdd yn cefnogi datblygiad yr Asesiad Effaith Covid. Gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol, amlygodd y Grŵp rai o'r manteision amgylcheddol (tymor byr) a welwyd yn sgîl, er enghraifft, llai o draffig. Bu'r Grŵp hefyd yn llywio rhai o'r cwestiynau a gafodd eu cynnwys yn arolwg cyhoeddus BGC CNPT. Dangosodd canlyniadau'r arolwg hwn fwy o ffocws ac ymwybyddiaeth o fyd natur a'r amgylchedd. Er enghraifft, teimlai 86% o'r cyfranogwyr fod bywyd gwyllt ac ansawdd aer wedi gwella yn ystod y cyfnod clo. Ar ben hynny, roedd 38% wedi datblygu mwy o gonsyrn ac ymwybyddiaeth o fyd natur, a 27% o'r newid yn yr hinsawdd. Mae'n werth nodi bod 61% bellach yn gosod mwy o werth ar fannau gwyrdd hygyrch. Dangosodd y canlyniadau hyn fwy o bwyslais ar fyd natur a'r amgylchedd, a manteision hynny i'r gymdeithas.

Mae angen i ni wneud yn fawr o'r newid hwn a sicrhau meddylfryd tebyg yng nghyswllt dau argyfwng byd natur a'r hinsawdd. Er gwaethaf heriau Covid a gweithio o bell, mae Grŵp Craidd Seilwaith Gwyrdd BGC Castell-nedd Port Talbot wedi gallu symud nifer o brosiectau llwyddiannus ymlaen.

Yn unol â hyn, hoffem rannu rhai enghreifftiau o'r gwaith da a'r mentrau a welwyd gan y grŵp a'i aelodau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Cyllid Strategol a Ddyrannwyd (SAF)

Yn 2020/21 darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyllideb o £25,000 ar ffurf Cyllid Strategol a Ddyrannwyd (SAF) i FGC Castell-nedd Port Talbot ar gyfer prosiectau oedd yn cyfateb i Ddatganiad Ardal y De-orllewin. Mae'r mecanwaith SAF yn darparu sylfaen ar gyfer gwaith CNC, sef cyflawni blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun corfforaethol, Datganiadau Ardal a chynlluniau a strategaethau gweithredol. Mae'r adran isod yn darparu rhagor o fanylion am y prosiectau hyn.

Mapio Mannau Gwyrdd Cymunedol

Pwrpas y prosiect hwn oedd peilota dull o fynd ati i fapio mannau gwyrdd cymunedol. Dewiswyd cyfres o 30 o safleoedd, gan gynnwys parciau oedd yn cael eu rheoli gan yr awdurdod lleol, cyfleusterau chwaraeon oedd yn cael eu rheoli gan gynghorau cymuned, a mannau agored. Ymchwiliwyd i'r safleoedd o ran eu hygyrchedd (pwyntiau mynediad, parcio), y ddarpariaeth o ran seilwaith, nodweddion cynefinoedd a chysylltedd â mannau gwyrdd eraill. Dyma rai o'r allbynnau:

- methodoleg a brofwyd ar gyfer cynnal arolwg ar safleoedd o'r fath
- taflen safle ar gyfer pob safle, yn manylu ar y priodweddau uchod, yn ogystal â gweithgareddau a awgrymir
- haen GIS er mwyn trosglwyddo'r wybodaeth i wefan yr awdurdod lleol (yn amodol ar gyllid yn y dyfodol).

Mae'r prosiect wedi profi bod y fethodoleg yn llwyddiannus, a chyfnod nesaf y prosiect fyddai estyn yr arolwg a ffurfioli hygyrchedd ar y we. Bydd yr wybodaeth yn

ddefnyddiol ar gyfer Asesiadau Seilwaith Gwyrdd ac yn adnodd ar gyfer partneriaid y BGC.

Canolfan Ymwelwyr Cwm Afan

Mae Coedwig Afan yn denu nifer sylweddol o ymwelwyr ac mae ganddi gryn botensial o safbwynt economaidd (twristiaeth) a iechyd (ffyrdd actif a iach o fyw yn yr awyr agored). O ganlyniad, yn 2019/20 comisiynodd CNC ymgynghorwyr i adolygu cyfleoedd yn yr ardal i'r dyfodol i wella'r ddarpariaeth waelodlin ac ehangu'r apêl yn y farchnad. Yn sgîl y cyllid diweddarach hwn roedd modd gwneud gwaith pellach, mwy manwl i archwilio dau o'r camau blaenoriaeth yng Nghanolfan Ymwelwyr Afan ac o'i hamgylch. Y ddau opsiwn a archwiliwyd oedd:

- dichonoldeb 'opsiynau chwarae' ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yn ymyl y Ganolfan Ymwelwyr
- y posibilrwydd o ddarparu llety ar "safle'r hen amffitheatr"

Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn helpu i lywio buddsoddiad yn y lleoliad i'r dyfodol; yn arbennig bydd yr 'opsiynau chwarae' yn cyd-fynd â buddsoddiadau CNPT yn y Ganolfan Ymwelwyr ar hyn o bryd, neu'n ychwanegu atynt. Yn awr bydd y canfyddiadau'n cael eu datblygu ymhellach mewn partneriaeth â Grŵp Rhanddeiliaid Afan a Rheoli Tir oddi mewn i CNC.

Adfer Pwll Parc Jersey

Prosiect yw hwn oedd yn deillio o'r gwaith Adeiladu Cymunedau Diogel a Chydnerth yn Llansawel, oedd yn cynnwys grŵp "Ffrindiau Parc Jersey" ac ysgol leol. Roedd y pwll ym Mharc Jersey wedi dadfeilio dros gyfnod o flynyddoedd lawer, a bwriad y prosiect oedd ei adfer, fel caffaeliad pwysig i'r gymuned leol – gan wella bioamrywiaeth a hefyd werth addysgiadol y safle. Y prif dasg oedd gwella gallu'r pwll i ddal dŵr, clirio'r ardal yn ymyl a darparu llystyfiant ar ffurf rhywogaethau planhigion gwlyptir brodorol a chreu llwyfan ar gyfer rhwydo yn y pwll. Ymgynghorwyd â'r partïon perthnasol, gan gynnwys CADW. Yn anffodus, achosodd Covid oedi cyn cychwyn y gwaith, ac yna cafodd y contractiwr ddamwain (nid wrth weithio ar y

prosiect hwn), oedd yn golygu nad oedd modd cwblhau'r gwaith – mae'r llystyfiant wedi cael ei glirio, a gosodwyd sylfeini'r llwyfan rhwydo. Mae llawer o'r deunyddiau gofynnol wedi cael eu prynu, ac rydym yn gobeithio bydd modd cael hyd i arian yn 2021/22 i gwblhau'r gwaith adfer.

Ceisiadau Deilliannau a Rennir (SORs)

Cynigion ad hoc, allanol i CNC am gyllid i gyflwyno prosiectau/mentrau yw ceisiadau deilliannau a rennir (SORs). Mae'r unigolyn neu'r sefydliad yn cychwyn y broses o baratoi cynnig maent yn "berchen" arno.

Trwy'r mecanwaith ariannu hwn roedd modd i CNC gyd-gyflwyno nifer o brosiectau gyda phartneriaid yng Nghastell-nedd Port Talbot a oedd yn cyflawni yn erbyn themâu Datganiad Ardal y De-orllewin.

Craig Gwladus

Arweiniwyd y prosiect gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot a'r nod oedd datblygu a chyfnerthu Coed Craig Gwladus fel a ganlyn:

1. Gofod coetir o safon a chyfleuster ar gyfer dysgu a gweithgareddau yn yr awyr agored, yn gwasanaethu'r sectorau addysg lleol, iechyd a hamdden.
2. Safle arddangos cloddfa ddrifft hanesyddol sy'n ffurfio rhan o brofiad ymwelwyr sy'n adrodd hanes ehangach treftadaeth ddiwydiannol Cwm Nedd.
3. Elfen lewyrchus o'r gymuned leol y maent yn falch ohoni, yn gallu ei mwynhau, ac yn teimlo eu bod yn gallu ymwneud â hi.
4. Parc hunangynhaliol sydd yng ngofal grŵp Cyfeillion llewyrchus.
5. Cynefin bywyd gwyllt Coetir Hynafol cyfoethog, cydnerth ac adferol.

I mewn i'r Coed

Gan weithio gyda Chyngor Cymuned y Creunant, nod y prosiect oedd gwella ac annog mynediad y cyhoedd i'r goedwig sydd ym meddiant CNC, a chynyddu defnydd ohono trwy greu llwybrau, gyda cherfluniau, nodau pellter, byrddau picnic a meinciau. Y ffocws oedd ymgysylltu â thrigolion lleol i wella iechyd a llesiant trwy fod yn actif yn yr awyr agored a chreu cyfleoedd i wirfoddoli i'r gymuned leol, gan greu gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd lleol.

Bioamrywiaeth Conifferau yn Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru

Nod prosiect Bioamrywiaeth yn Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru (WGWE) oedd cynnig protocol er mwyn i Bartneriaethau Natur Lleol (LNP's) ac aelodau o'r gymuned gydweithio â Rheolwyr/Swyddogion Coedwigaeth i nodi, diogelu a gwella rhywogaethau a chynefinoedd lleol pwysig yn Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru.

Prosiectau eraill

Mawndiroedd Coll

Cyflawnir prosiect 'Mawndiroedd Coll De Cymru' gan y Bartneriaeth Mawndiroedd Coll, sy'n cynnwys Cyngor Castell-nedd Port Talbot (Arweinydd), Cyngor Rhondda Cynon Taf, Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Abertawe a Coed Lleol. Dyfarnwyd £1.56m ar gyfer hyn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Gydag arian

cyfatebol ychwanegol gan bartneriaid a Chronfa Rheoli Cynefinoedd Fferm Wynt Pen y Cymoedd Vattenfall, mae cyfanswm gwerth y prosiect yn awr yn fwy na £2.8m.

Nod y prosiect yw adfer tirlun mawndir hanesyddol a helpu pobl i fwynhau eu hardal awyr agored leol. Yn hanesyddol, roedd yr ardal ucheldir rhwng Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf yng Nghymoedd De Cymru, y cyfeirid ati ar un adeg fel 'Alpau Morgannwg', yn dirlun rhostir agored o fawndir corslyd.

Bydd y prosiect yn adfer ac yn rheoli mwy na 490 hectar o'r tirlun hanesyddol hwn, a chynefinoedd sy'n cynnwys gweundir, glaswelltir a choetir brodorol. Ffocws arbennig fydd rhoi adferiad uniongyrchol i 256 hectar o gorsydd mawn a phyllau a fu gynt wedi'u coedwigo.

Bydd gwelliannau o'r fath i gynefinoedd yn annog llawer o rywogaethau bywyd gwyllt lleol sy'n colli tir ar hyn o bryd i ffynnu eto. Ymhlith y rhain mae adar fel yr ehedydd a'r troellwr mawr; infertebratau fel y fritheg werdd a'r fritheg berlog fach; a mamaliaid, gan gynnwys llygoden bengron y dŵr, sy'n anodd cael hyd iddi.

Bydd y gwaith adfer mawndir yn cael ei fonitro'n fanwl ac yn llywio gwaith ymchwil pwysig sy'n parhau ym Mhrifysgol Abertawe i dywys technegau adfer arfer gorau a deall yr effeithiau ar fioamrywiaeth, ansawdd dŵr ac allyriadau CO2. Bydd mynediad i'r tirlun rhyfeddol wyllt hwn hefyd yn cael ei hwyluso trwy lwybrau troed gwell, gydag arwyddion a dehongli.

Fel rhan o'r prosiect, bydd pobl leol hefyd yn gallu profi treftadaeth ar garreg y drws, dysgu amdani ac ymwneud â hi trwy amrywiaeth o weithgareddau di-dâl, digwyddiadau, raglenni dysgu awyr agored mewn ysgolion, a chyfleoedd i wirfoddoli. Bydd pobl yn gallu caffael sgiliau awyr agored newydd a gwybodaeth trwy raglenni hyfforddi penodol. Hefyd bydd teuluoedd ac oedolion yn gallu ymuno â rhaglenni gweithgaredd iechyd a llesiant y prosiect, neu gael eu hatgyfeirio iddynt.

Fferm Brynau – Astudiaeth achos creu Coetir (SMNR ar waith)

Nodwyd Brynau fel ardal addas ar gyfer creu coetir newydd ar Fap Cyfleoedd Glastir, a nodwyd y tir hefyd yn yr adroddiad Gweithio gyda Phrosesau Naturiol (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2017) fel blaenoriaeth ar gyfer plannu coetir dalgylch i liniaru llifogydd. Prynwyd y tir yn ddiweddar gan yr Ymddiriedolaeth Goetir, gyda chyfraniad ariannol sylweddol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae'n gyfle i greu coetir llydanddail brodorol newydd ar raddfa ddalgylch, ac i glustogi'r coetir hynafol darniog sy'n weddill a mynd i'r afael â bygythiadau megis rhododendronau ymwthiol. Bydd y prosiect yn cyflawni buddion lluosog i gymuned Castell-nedd, megis:

- Lliniaru llifogydd yn naturiol;
- Mannau gwyrdd hygyrch;
- Gwella bioamrywiaeth;
- Cipio carbon (hyd at 23,000 o dunelli); a
- Gwella cyfalaf naturiol.

Dewiswyd y safle yn lleoliad ar gyfer lansio Menter Coedwig Genedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020. Plannwyd y coed cyntaf gan blant ysgol, a bydd yr Ymddiriedolaeth yn plannu rhyw 150,000 o goed i greu coetir newydd, perthi, a phorfa goediog, yn ogystal ag agor mynediad newydd i'r cyhoedd. Bydd y coetir newydd hwn wedi'i neilltuo a'i ariannu'n rhannol trwy brosiect PLANT! Llywodraeth Cymru, sy'n plannu coeden am bob plentyn sy'n cael ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru.

Symudir ymlaen gyda'r prosiect hwn mewn cydweithrediad agos â Chyngor Castell-nedd Port Talbot, er mwyn cynnig cyfleoedd adloniadol sy'n cyd-fynd â Pharc Gwledig y Gnoll gerllaw i wella llesiant lleol ac ychwanegu at y cyrchfan hwnnw. Mae Prifysgol Aberystwyth hefyd yn ymwneud â'r prosiect i gasglu tystiolaeth trwy brosiect monitro cydweithredol ar atafaelu carbon a dŵr ffo.

Mae wedi'i seilio ar gyfranogiad cyhoeddus helaeth, gyda chyfleoedd newydd i wirfoddolwyr, ymchwil, ac ymgynghori, er mwyn sicrhau bod pobl leol yn dylanwadu ar y gweithgareddau a'r nodweddion ac yn eu ffurfio, yn ogystal â dewis enw terfynol ar gyfer y coetir.

Rydym ni'n gobeithio bydd Brynau yn ysbrydoli eraill i greu coetir brodorol ar gyfer y dyfodol.

Tai Tarian: Cystadleuaeth Fy Lle i, Fy Ngofod i ar gyfer Pobl Ifanc

Lansiodd Tai Tarian brosiect ymgysylltu a chystadleuaeth yn ymwneud â phobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot rhwng 16 a 24 oed a'r manteision iddyn nhw yn sgîl ymwneud yn gadarnhaol â'r mannau gwyrdd naturiol yn eu cymunedau.

Enw'r prosiect yw Fy Lle i, Fy Ngofod i, ac mae wedi'i lunio i adeiladu ar yr ymwybyddiaeth a grewyd yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl ynghylch pwysigrwydd natur i iechyd meddwl, oedd yn taro tant yn arbennig yn ystod y cyfnod clo.

Cystadleuaeth fideo fer ar y cyfryngau cymdeithasol yw hon, fe'i lansiwyd ar 12 Gorffennaf, a bydd ar agor tan 20 Awst. Gofynnir i gystadleuwyr o'r grŵp oedran rannu pam maen nhw wrth eu bodd gyda'u man gwyrdd penodol yn CNPT. Gallai'r

man gwyrdd dan sylw fod yn goetir, yn barc lleol, yn ddarn o dir gwastraff, yn lan afon, neu hyd yn oed yn goeden sydd â'i chymeriad ei hun mewn ardal drefol, neu le a fu o gymorth iddyn nhw yn ystod y cyfnod clo.

Gofynnwyd i'r cystadleuwyr rannu fideo heb fod yn hwy na 45 eiliad ar Instagram, Facebook, Twitter neu TikTok a thagio TaiTarian, gan ychwanegu #MyPlaceMySpace.

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol CNPT (NPTCVS): Pecyn offer ar gyfer Mannau Gwyrdd ac Adferiad Gwyrdd

Mae NPTCVS yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg ar Grant Adferiad Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwirfoddoli.

Un agwedd ar y grant hwn yw datblygu llyfrgell o adnoddau, pecynnau offer a thaflenni ffeithiau ar gyfer y trydydd sector mewn ymgais i gynnal y diddordeb cynyddol mewn gwirfoddoli a gweithredu cymunedol sydd wedi datblygu o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws. Yr enw ar hyn yw'r Pecyn Offer Adferiad Gwyrdd. Yn dilyn pandemig Covid-19, yr adferiad gwyrdd yw'r cyfle i ailffocysu ein nodau a'n gweithgaredd mewn ffyrdd sydd o fudd cynyddol i bobl a'r blaned, er mwyn creu dyfodol mwy cynaliadwy. Rhaid i'n hymateb i'r pandemig ddilyn llwybr sy'n adfer byd natur ac yn datgarboneiddio ein heconomi.

Nod y pecyn offer hwn yw helpu unigolion a sefydliadau i wneud y canlynol:

- Sicrhau gwell dealltwriaeth o'r hyn mae'r adferiad gwyrdd yn ei olygu;
- Archwilio eich cyfleoedd, gan ystyried y camau rydych eisoes wedi'u cymryd a sut mae canfod syniadau newydd;
- Dewis camau ymarferol gall eich sefydliad eu cymryd; a
- Chysylltu â'r trydydd sector ehangach trwy wirfoddoli amgylcheddol.

Asesiad Llesiant

Cynhaliwyd yr Asesiadau Llesiant cyntaf yn 2017/18 ac mae bellach yn bryd i ni ddatblygu Asesiad Llesiant newydd erbyn mis Mawrth 2022. Hwn fydd yr ail iteriad, a'r tro cyntaf i Ddatganiadau Ardal gael eu hystyried yn yr Asesiad.

Y Grŵp Craidd Seilwaith Gwyrdd sy'n gyfrifol am bennod 'Amgylcheddol' yr Asesiad Llesiant (2022). Bydd yr asesiad hwn yn cymryd i ystyriaeth anghenion hirdymor yr ardal, yn ogystal â'r rhai tymor byr, gan edrych ar ardal awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot yn ei grynswth a hefyd ar gymunedau ac ardaloedd llai o fewn y sir.

Mae ein grŵp wedi cytuno i ddefnyddio Ail Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR2020) Cyfoeth Naturiol Cymru yn sylfaen ar gyfer colofn Amgylcheddol yr Asesiad Llesiant. Mae SoNaRR2020 yn adeiladu ar nifer o asesiadau Cymru, y Deyrnas Unedig a byd-eang o statws a thueddiadau adnoddau naturiol. Mae'n edrych ar y risgiau mae'r tueddiadau hynny'n eu hachosi i'n hecosystemau ac i lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd hirdymor Cymru, gan ddefnyddio termau a ddiffiniwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae SoNaRR yn llunio asesiad o lesiant amgylcheddol ("i ba raddau mae rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei chyflawni") ar lefel Cymru. Mae wedi'i strwythuro o amgylch nodau canlynol Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

1. Mae cronfeydd o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella
2. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid a ddisgwylir ac anrhagweladwy
3. Mae gan Gymru fannau iach ar gyfer pobl sy'n cael eu gwarchod rhag risgiau amgylcheddol
4. Economi adnewyddol sy'n cyflawni lefelau cynaliadwy o gynhyrchedd a threuliant

Ar ben hynny, byddwn ni'n defnyddio Datganiad Ardal y De-orllewin i sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o'r blaenoriaethau lleol ar gyfer gweithredu. Dyma iteriad cyntaf yr Asesiadau Llesiant lle bydd Datganiadau Ardal yn cael eu hystyried (fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

Mae'r Datganiadau Ardal yn dangos sut mae pob un o'r pedwar mesur hyn yn cael eu hadlewyrchu yn yr ardaloedd lleol yn eu tro, a pha ddata allai gael ei ddefnyddio i asesu ein cynnydd. Mae Datganiad Ardal y De-orllewin eisoes wedi gweithio gyda'r rhanddeiliaid i nodi'r heriau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Bydd yr asesiad hwn yn adeiladu ar y dystiolaeth a'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr Asesiad Llesiant (2017) diwethaf, ac mae hynny'n bwysig. Yr asesiad yw'r sylfaen ar gyfer adeiladu popeth arall. Ein nod yw sicrhau dealltwriaeth gadarn, wrthrychol o Gastell-nedd Port Talbot, i lywio ein penderfyniadau ynghylch ble dylem ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd. Dyma'r adeg pryd y byddwn yn *ystyried popeth* er mwyn ein helpu i flaenoriaethu.

Cynhwysiad Digidol

Cyn y pandemig, roedd y Gweithgor Cynhwysiad Digidol yn nesáu at ddiwedd y rhaglen waith yr oedd wedi cychwyn arni. Y bwriad oedd y byddai'r rhaglen yn gadael rhwydwaith yn ei le i'r partneriaid barhau i gefnogi a dysgu oddi wrth ei gilydd, ochr yn ochr â gwreiddio cynhwysiad digidol yng nghylch gorchwyl yr holl waith arall a gychwynnid gan y BGC.

Mewn blwyddyn pan fu argaeledd a gallu digidol yn bwysicach nag erioed o'r blaen, mae gwaith y Gweithgor Cynhwysiad Digidol wedi darparu man cychwyn cadarn ac wedi rhoi partneriaid y BGC mewn sefyllfa dda i ymateb yn gyflym i'r heriau a wynebwyd. Roedd lefel dda o ddealltwriaeth o'r darlun presennol o ran cynhwysiad digidol, a llwyddodd y partneriaid i ledaenu gwybodaeth gyhoeddus trwy ddefnyddio amrywiaeth o sianeli er mwyn osgoi eithrio'r rhai nad oeddent yn actif yn ddigidol.

Bu newidiadau i'r gwasanaeth a gyflwynwyd o ganlyniad i'r pandemig, a gwelwyd bod y rhain yn fwy effeithlon a chost effeithiol, felly bydd y gwersi hyn a ddysgwyd yn llywio'r ddarpariaeth i'r dyfodol.

Bydd cyfnod nesaf y gwaith yn y maes hwn yn edrych ar seilwaith ac argaeledd a fforddiadwyedd band eang cyflym. Hefyd bydd angen meithrin ymddiriedaeth a hyder y trigolion, i sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl.

Gweithio ar y Cyd

Asesiadau Llesiant ac Asesiad o Anghenion y Boblogaeth

Mae BGC Castell-nedd Port Talbot wedi ymrwymo i ddefnyddio dull rhanbarthol, cydweithredol wrth gynnal ei ail asesiad lleol o lesiant, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2022.

Rydym yn cydweithio'n agos â BGC Abertawe, a hefyd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wrth iddyn nhw ymgymryd â'r Asesiad rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal lle mae swyddogion cefnogi'r tri Bwrdd yn rhannu ac yn trafod cynnydd ar yr asesiadau, gan gydweithio lle bynnag y bo modd i osgoi dyblygu. Mae'r grŵp hwn yn cydlynu coladu data ar gyfer y tri asesiad, i sicrhau ein bod yn 'gofyn yr un peth' gan bartneriaid sy'n cwmpasu'r ddwy ardal. Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu pwynt mynediad a rennir ar gyfer y data hwn, a fydd yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol ac yn darparu adnodd helaeth ar gyfer partneriaid y BGC a'r BPRh yn y dyfodol.

Sefydlwyd Bwrdd Cydlyniant sy'n cynnwys partneriaid statudol sy'n cynrychioli'r ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd y Bwrdd hwn yn goruchwylio'r gwaith o gwblhau'r ddau Asesiad Llesiant a'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, gan sicrhau'r canlynol:-

- Dyblygu ymdrechion cyn lleied â phosibl;
- Lleihau'r risg y gallai fod galwadau lluosog am fewnbwn tebyg i'r ymarferion gan randdeiliaid;
- Sicrhau bod gweithgareddau ymwneud/ymgysylltu ac ymgynghori yn cael eu cynllunio a'u cydlynu i sicrhau lefelau da o gyfranogiad ac osgoi lludded;
- Sicrhau nad oes unrhyw fylchau pwysig yn cael eu gadael rhwng yr ymarferion;
- Cyfuno data, gwybodaeth ac adnoddau i greu cynnyrch o safon sy'n cefnogi ac yn llywio penderfyniadau a wneir yn y partneriaethau yn eu tro;
- Dod â mwy o gydlyniad a ffocws i waith yn rhanbarthol ac yn lleol o safbwynt anghydraddoldebau iechyd, ac i waith ehangach er mwyn cynnal lefelau llesiant da a sicrhau rhaglenni ataliaeth ac ymyrraeth gynnar effeithiol; a
- Sicrhau cyfatebiaeth dda â pholisi cenedlaethol.

Ni fydd swyddogaeth gwneud penderfyniadau i'r Bwrdd hwn, gan y bydd unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â'r asesiadau yn cael ei wneud gan y Byrddau dan sylw.

Y bwriad yw y bydd y dull gweithredu hwn yn parhau i'r cyfnod cynllunio er mwyn sicrhau cydlyniant ac osgoi bylchau.

Camddefnyddio Sylweddau

Yn 2018 yn dilyn adroddiadau am lefelau uchel o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau, heintiau difrifol a chynnydd mewn troseddau a drefnwyd ar draws yr ardal, ffurfiwyd Grŵp Digwyddiadau Critigol. Cafwyd aelodau o ystod eang o asiantaethau

er mwyn asesu'r risg, y bygythiadau a'r niwed yn fanwl, ac er mwyn rhoi ymateb priodol ar waith ar unwaith. Mae gwaith wedi parhau i wneud cynnydd ers hynny.

Mae'r tueddiadau fel petaent yn symud i'r cyfeiriad cywir, ond cydnabyddir bod llawer o waith i'w wneud o hyd yng nghyd-destun Cymru.

Ym mis Ionawr 2020 cytunwyd i fabwysiadu dull gweithredu Iechyd Cyhoeddus yn y tymor hwy, mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau. Cyflwynwyd adroddiad a baratowyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ar y cyd ym mis Hydref. Roedd yr adroddiad hwn eisoes wedi cael ei gymeradwyo yn y Bwrdd Cynllunio Ardal (APB) ac wedi hynny fe'i cadarnhawyd gan y BGC ar y cyd. Bydd y gwaith hwn yn awr yn cael ei symud ymlaen trwy'r APB.

Er gwaethaf pryderon cychwynnol ynghylch y darlun camddefnyddio sylweddau yn ystod y pandemig, mae asiantaethau a darparwyr triniaeth wedi ymateb yn arloesol, ac o ganlyniad mae'r sefyllfa'n llawer mwy cadarnhaol nag yr oeddem yn ofni ar y cychwyn.

Gwaith Braenaru Blynyddoedd Cynnar

Ar ddiwedd 2019/20, roedd y gwaith mapio gyda phartneriaid yn dod i ben, a fu'n edrych ar y systemau a'r gwasanaethau oedd yn eu lle ar gyfer plant 0-7 oed ar draws pedwar maes – iechyd, addysg, gofal plant a chwarae, cymorth i deuluoedd. Trefnwyd grwpiau ffocws gyda rhieni yn gynnar yn 2020/21 i ategu'r wybodaeth o'r

mapio, ond roedd y rhain yn gyfyngedig oherwydd y mesurau Covid oedd ar waith ar y pryd.

Yn 2020/21, defnyddiwyd cyllid cydlynydd Llywodraeth Cymru i gyflogi dau gydlynydd (un i bob ardal awdurdod lleol) er mwyn datblygu nodau ac amcanion y rhaglen ar draws y rhanbarth. Hefyd darparwyd cyllid pellach, gyda'r bwriad o brofi ffyrdd newydd o weithio mewn meysydd a nodwyd yn y system blynyddoedd cynnar. Defnyddiwyd £214k ar draws rhanbarth CNPT ac Abertawe i gyflwyno prosiectau peilot, gan gynnwys gwella cydlyniant gwasanaethau mewn ardaloedd heblaw rhai Dechrau'n Deg, prynu adnoddau Wellcomm i gefnogi datblygiad iaith a lleferydd, a datblygu'r gweithlu i gefnogi llythrennedd corfforol yn y blynyddoedd cynnar. Oherwydd oedi wrth ddyfarnu cyllid gan Lywodraeth Cymru, cychwynnodd cyflogaeth y cydlynwyr a sefydlu'r prosiectau peilot yn hwyr (Medi/Hydref 2020).

Cynhaliwyd gwerthusiad o'r prosiectau peilot (er bod cyfyngiadau oherwydd yr oedi cyn cychwyn) a defnyddiwyd y canfyddiadau i addasu a mireinio'r prosiectau hynny sydd wedi parhau yn ystod 2021/22.

Wrth symud ymlaen yn 2021/22, bydd y prosiectau peilot yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol yn y system blynyddoedd cynnar:

1. Gwella mynediad i Gefnogaeth Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu
2. Cymorth i Deuluoedd
3. Maeth yn y Blynyddoedd Cynnar
4. Anghenion Dysgu Ychwanegol a chymorth Therapi Galwedigaethol
5. Pontio trwy'r Gwasanaethau Iechyd
6. Llythrennedd Corfforol

Cynghorau Tref a Chymuned

Mae ein Cynghorau Tref a Chymuned lleol yn dal i gael eu cynrychioli ar y Bwrdd. Byddant yn diweddaru eu cynlluniau i gefnogi'r amcanion llesiant eleni, ac yn ymgorffori hynny yn eu Hadroddiadau Blynyddol. Ceir dolenni i'r Adroddiadau Blynyddol isod:-

https://www.coedffranc-tc.gov.uk/council-information/well-being/

http://www.blaenhonddan-wcc.gov.uk/home/

http://www.neathtowncouncil.gov.uk/default.aspx

Edrych Ymlaen

Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyflawni Asesiad Llesiant a chyhoeddi Cynllun Llesiant lleol bob pum mlynedd. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut byddan nhw'n cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'n ofynnol bod pob BGC yn cynnal Asesiad o Lesiant er mwyn deall lefelau llesiant cyfredol, beth sydd bwysicaf i gymunedau lleol, ac yn cynhyrchu Cynllun Llesiant Lleol i wella llesiant.

Mae ein hail asesiad lleol o lesiant i gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2022, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda. Fel y soniwyd eisoes, rydym ni'n cydweithio â BGC Abertawe a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn mwyafu adnoddau ac osgoi dyblygu.

Rydym ni'n cydweithio'n agos â'n partneriaid statudol a'r rhai a wahoddwyd i sicrhau ein bod yn casglu darlun cywir o lesiant yn ein cymunedau.

Lansiwyd Cymuned Ymarfer (CoP) CNPT ar ymwneud ac ymgysylltu yn wreiddiol ym mis Medi 2019. Grŵp o gydweithwyr ar draws y cyngor a phartneriaid yw'r gymuned hon, ac maent yn ymgysylltu'n fanwl ac yn rheolaidd â nifer o'n grwpiau rhanddeiliaid allweddol.

Gwahoddwyd partneriaid y BGC i ymuno â'r grŵp hwn yn 2021 wrth i'r cyngor lansio'i ymgyrch 'Dewch i Sgwrsio'. Ymarferiad ymgysylltu ar raddfa fawr yw hwn, lle gofynnir i'r trigolion beth sy'n bwysig iddyn nhw a'u cymunedau yn awr ac i'r dyfodol. Bydd gweithwyr y Cyngor ac asiantaethau partner yn siarad â thrigolion, busnesau a grwpiau rhanddeiliaid ar draws y fwrdeistref sirol yn ystod misoedd yr haf, ac yn ceisio cyrraedd cynifer o bobl â phosibl.

Bydd canfyddiadau'r ymarferiad hwn nid yn unig yn llywio cynllun Adferiad Corfforaethol y Cyngor, ond hefyd yr Asesiad Llesiant. Rydym am i hyn fod yn ddechrau sgwrs barhaus gyda'n cymunedau, y bydd holl bartneriaid y BGC yn rhan ohoni.

Wrth i ni ddechrau meddwl am ein Cynllun Llesiant nesaf, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023, rydym ni'n ystyried ym mha ffyrdd gall ein BGC weithio'n wahanol a chael mwy o gyfleoedd i rannu gwybodaeth. Yn ddiweddar, buom ni'n cynnal fersiwn fwy anffurfiol o'n BGC, lle bu tri phartner yn rhoi cyflwyniadau ar eu buddsoddiadau arfaethedig ar gyfer yr ardal a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Rydym ni'n bwriadu cynnal mwy o gyfarfodydd fel y rhain, ar wahân i'r eitemau busnes ffurfiol arferol, er mwyn sicrhau bod gennym ni ddealltwriaeth dda o'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ac sy'n parhau yn CNPT. Rydym ni'n teimlo bydd hynny'n ein rhoi mewn sefyllfa gryfach a mwy gwybodus wrth i ni ddewis ein hamcanion llesiant nesaf.

Yn ystod 2021/22 bydd BGC CNPT yn parhau i symud ymlaen gyda'r llifoedd gwaith y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt fel rhan o'r gwaith adfer wedi Covid.

Sut gallwch chi dracio cynnydd a bod yn rhan o'n gwaith?

Mae'r gwaith a wneir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi ar ei wefan, y gallwch ei gyrchu trwy http://www.nptpsb.org.uk/

Hefyd gallwch chi gysylltu â Chydlynydd ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn uniongyrchol trwy e-bostio nptpsb@npt.gov.uk Rydym ni'n croesawu ymwneud ag unrhyw ran o'n gwaith, a byddem ni'n croesawu syniadau ac awgrymiadau ar gyfer meysydd gwaith eraill y gallem ni eu hystyried i'r dyfodol.